# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 2**

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

**PENNOD 2**

GWAREDIADAU TRETHADWY

### 4 Gwaredu deunydd drwy dirlenwi

(1) Gwaredir deunydd drwy dirlenwi os caiff deunydd—

(a) ei ddodi ar wyneb y tir neu ar strwythur sydd wedi ei osod yn y tir, neu

(b) ei ddodi o dan wyneb y tir (er enghraifft, mewn ceudod megis ogof neu gloddfa).

(2) Mae is-adran (1) yn gymwys pa un a osodir y deunydd mewn cynhwysydd cyn ei ddodi ai peidio.

(3) Caiff rheoliadau addasu ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi (gan gynnwys drwy ddiwygio'r adran hon neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â'r dreth).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 4.